



Clybiau
Plant Cymru
Kids' Clubs

WELSH PROMISE ADDEWID CYMRAEG



Two Tribes After School Club

Background

Two Tribes After School Club is a well-run, successful service that operates from Magor Church Hall, Magor, Monmouthshire, registered with CIW since July 2014. They provide an Out of School Childcare Club for a maximum of 40 children between the age of three and 12 years with over 80 children on their register. The service is situated approximately 1.5 miles from the Prince of Wales Bridge in a primarily English-speaking area and provides care for children from English medium schools, and to many families who have moved to Wales from England.

The setting has been fully engaged with Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs for many years, often featuring in our Y Bont newsletters showcasing good practice and taking on any support offered especially when it came to Welsh language initiatives.

Clwb Ôl-Ysgol Two Tribes

Cefndir

Mae Clwb Ôl-Ysgol Two Tribes yn wasanaeth llwyddiannus sy'n cael ei redeg yn dda o Neuadd Eglwys Magwyr, Magwyr, Sir Fynwy, ac sydd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ers mis Gorffennaf 2014. Y mae'n darparu Clwb Gofal Plant All-Ysgol ar gyfer uchafswm o 40 o blant rhwng tair a 12 oed, a thros 80 o blant ar eu cofrestr. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli tua 1.5 milltir o Bont Tywysog Cymru mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf ac mae'n darparu gofal i blant o ysgolion cyfrwng Saesneg, ac i lawer o deuluoedd sydd wedi symud i Gymru o Loegr.

Mae'r lleoliad wedi bod yn ymgysylltu'n llawn â Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs ers blynyddoedd lawer, yn aml yn ymddangos yn ein newyddlen, Y Bont, yn arddangos arfer dda ac yn derbyn unrhyw gefnogaeth a gynigir yn enwedig o ran mentrau iaith Gymraeg.



Two Tribes After School Club

25 Jan · 🌐

Dydd Santes Dwynwen Hapus! ❤️ 🇨🇪



	Wheel - Stadffar, we will spend our lives together
	Heart - love and affection
	Double heart - shared feelings
	Keyhole - my door is open to you, I will look after you
	Horseshoe - Good luck
	Lock - Security, I will look after you
	Key - Key to my heart
	Birds - Lovebirds, lets go away together
	Balls in a cage - Number of children
	Bell - Live in harmony, wedding, anniversary or christening
	Diamond - Wealth or good fortune
	Cross - Faith in God, blessing
	Flower - Courtship, our love will grow

www.ActivityVillage.co.uk - Keeping Kid's Busy

The day is a way of saying to all in Wales to tell the ones we love exactly how we feel about them.

Dwynwen means 'She who leads a blessed life'.

Legend says that she was a queen on Llanddwyn Island - part of the west coast of Anglesey - the remains of which can still be seen today, along with Dywennan's well.

It is believed the well is home to magical fish who can predict whether couples' relationships will succeed, if the fish are seen to be active when visiting the well, it was seen as a sign of a faithful husband.

Besides from the well, there is also Caerdydd Llanddwyn, meaning Llanddwyn's cauldron, which is a small wishing well that is located in a right corner between Llanddwyn Island and Nantlleog. According to folklore, if the water of the well boils while visitors are present, love and good luck will follow.

A Welsh love poem is traditionally given as a legend Dywennan's gift to, in 2000, the world's largest ever love poem was read and recited a whopping 448.

Dwynwen is the Welsh patron saint of lovers, which makes her the Welsh equivalent of St Valentine.

Dwynwen lived during the 12th century, and fell in love with a prince called Madoc. Madoc had a bad, selfish father, who had 24 daughters, but already arranged that she should marry someone else.

Dwynwen was so upset she could not cry, Madoc then begged God to make her forget him. After talking alone, Dywennan was visited by an angel, who appeared carrying a small potter designed to ease off memory of Madoc and turn her into a black of ice. God then gave them water to Dywennan. The first wish was that Madoc be blessed for second that God meet the fates and desires of true lovers, and third, that she should never marry. All these were fulfilled, and so a mark of her thanks, Dywennan devoted herself to God's service for the rest of her life.



Two Tribes After School Club

1 Mar · 🌐

Dydd Gwyl Dewi Hapus! 🇨🇪 🏰 🌻 🏈



To celebrate St.David's Day and promote the Welsh language, the Juniors helped to decorate their beautiful, new Welsh display board. They coloured and painted various daffodils, leeks and rugby balls, and also made some fabulous salt dough Welsh dragons. They played Welsh games and practiced their Welsh with Duolingo and Welsh trainer on the chromebooks. They also managed a little sing song of sospan fach! 🎵 Da iawn blant!


The Infants used their imaginations and creativity to build some amazing castles out of junk modelling. They helped to paint a dragon for our 'Castell' role play area, and did some lovely colourings and of course we all had some Pice ar y maen (Welsh cakes) at snack time!



Welsh promise | Addewid Cymraeg


Staff enrolled on to the Camau Learn Welsh course and then furthered their commitment by enrolling on to the [Welsh Promise](#) in September 2023. Staff have always recognised the importance of incorporating Welsh into the setting and had already started integrating some Welsh within the daily routine, even before undertaking the Camau course. Lead Welsh Language Childcare Business Development Officer Sian James, has always been captivated by the enthusiasm and dedication of leadership and staff towards encouraging the use of Welsh within the setting. The Welsh Promise has further enabled the setting to celebrate their strengths and give them the tools and guidance to look at areas to improve to finally build their confidence to work towards the [Active Offer](#).

“It is important for us to increase the use of Welsh in the setting to play our part in the Welsh Government’s Cymraeg 2050 campaign. Schools are also focusing more on increasing the use of Welsh and we like to feel that we are playing our part in supporting the children and the schools”



Fe wnaeth y staff ymrestru ar gwrs Camau Dysgu Cymraeg ac yna ychwanegwyd at eu hymrwymiad drwy gofrestru ar gyfer yr [Addewid Cymraeg](#) ym mis Medi 2023. Ma’re staff bob amser wedi cydnabod pwysigrwydd ymgorffori’r Gymraeg yn y lleoliad ac roedent eisoes wedi dechrau integreiddio rhywfaint o Gymraeg o fewn y drefn feunyddiol, hyd yn oed cyn dilyn cwrs Camau. Mae Sian James, y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Cymraeg Arweiniol, bob amser wedi’i swyno gan frwdfrydedd ac ymroddiad yr arweinyddiaeth a’r staff tuag at annog y defnydd o’r Gymraeg o fewn y lleoliad. Mae’r Addewid Cymraeg wedi galluogi’r lleoliad ymhellach i ddathlu eu cryfderau a rhoi’r offer a’r arweiniad iddynt i edrych ar feysydd i’w gwella er mwyn adeiladu eu hyder i weithio tuag at y [Cynnig Gweithiol](#) yn y pen draw.

“Mae’n bwysig i ni gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn y lleoliad i chwarae ein rhan yn ymgyrch Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae ysgolion hefyd yn canolbwyntio mwy ar gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg ac rydym yn hoffi teimlo ein bod yn chwarae ein rhan i gefnogi’r plant a’r ysgolion.”



Welsh promise | Addewid Cymraeg



Impact

All staff delved in to the action plan ensuring all aspects are covered to a great standard when it comes to Welsh Language development, the environment and when engaging with families. Through the Silver Welsh Promise, the setting has ensured that children are provided with a range of resources with a very good variety and choice in both Welsh and English, ranging from Welsh language books, posters, labelling and Welsh reward stickers. A Welsh mascot is also promoted within the setting in the form of a Welsh dragon called Dewi. Children are encouraged to communicate in Welsh and the mascot is then given as a reward to take home with the children heard speaking the most Welsh. Staff stated that children have begun using more Welsh in the setting especially during snack time with children using Welsh words for the foods and drinks and 'diolch' now being a regular phrase used by the children.



Effaith

Ymchwiliodd yr holl staff i'r cynllun gweithredu gan sicrhau bod pob agwedd yn cael ei chynnwys, a hynny i safon arbennig o dda o ran datblygu'r Gymraeg, yr amgylchedd ac wrth ymgysylltu â theuluoedd. Trwy ddyfarniad Arian yr Addewid Cymraeg, mae'r lleoliad wedi sicrhau bod plant yn cael ystod o adnoddau yn cynnwys amrywiaeth a dewis da iawn yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn amrywio o lyfrau Cymraeg aphosteri i labeli a sticeri gwobrwyo Cymraeg. Mae masgot Cymreig hefyd yn cael ei hyrwyddo yn y lleoliad ar ffurf draig Gymreig o'r enw Dewi. Anogir y plant i gyfathrebu yn Gymraeg ac yna rhoddir y masgot fel gwobr i fynd adref gyda'r plant a glywir yn siarad y mwyaf o Gymraeg. Dywedodd y staff fod y plant wedi dechrau defnyddio mwy o Gymraeg yn y lleoliad yn enwedig yn ystod amser byrbryd, a'r plant yn defnyddio geiriau Cymraeg ar gyfer y bwydydd a'r diodydd a 'diolch' bellach yn ymadrodd rheolaidd a ddefnyddir gan y plant.



Welsh promise | Addewid Cymraeg

The Welsh language is now embedded into their day-to-day routine where they ensure that Welsh is included in everything they do including themes and activities.


Two Tribes ensures that they celebrate the Welsh culture through celebrating key dates like Santes Dwynwen Day and great efforts are put in to celebrate St David's Day through displays, cooking activities and building Welsh castles using loose parts. Within the environment the Welsh language can now be seen everywhere in the form of labelling, bilingual displays and posters.

Many of the staff continue to progress on the Camau Learn Welsh Course as well as other learning welsh apps with Leanne Stephens, Welsh Champion of Two Tribes, who was celebrating a whopping 976 days of Duolingo during the visit. Leanne has also gone that one step further and developed a Dysgu Cymraeg file for the staff and children. The file includes key Welsh vocabulary from colours, days of the week, months and so much more and is at hand for all within the setting. Staff also recognise the importance of revising what they have learnt through the Camau course. However by embedding what they have learnt into the setting through signage, resources and the Dysgu Cymraeg folder, this ensures ample opportunities to continue to practice amongst each other, which will further strengthen their proficiency in Welsh as well as giving the children opportunities to learn some Welsh.

Mae'r Gymraeg bellach wedi'i gwreiddio yn eu trefn o ddydd i ddydd lle maent yn sicrhau bod yr iaith yn cael ei chynnwys ym mhopeth a wnânt, gan gynnwys themâu a gweithgareddau.

Mae Two Tribes yn sicrhau eu bod yn dathlu'r diwylliant Cymreig trwy ddathlu dyddiadau allweddol fel Dydd Santes Dwynwen a gwneir ymdrechion mawr i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy arddangosfeydd, gweithgareddau coginio ac adeiladu cestyll Cymreig gan ddefnyddio rhannau rhydd. O fewn amgylchedd y clwb mae'r Gymraeg bellach i'w gweld ym mhobman ar ffurf labeli, arddangosiadau dwyieithog a phosteri.

Mae llawer o'r staff yn parhau i symud ymlaen ar Gwrs Dysgu Cymraeg Camau yn ogystal ag apiau dysgu Cymraeg eraill gyda Leanne Stephens, Pencampwr Cymraeg Two Tribes, a oedd yn dathlu 976 diwrnod aruthrol o ddilyn Duolingo yn ystod yr ymweliad. Mae Leanne hefyd wedi mynd un cam ymhellach ac wedi datblygu ffeil Dysgu Cymraeg ar gyfer y staff a'r plant. Mae'r ffeil yn cynnwys geirfa Gymraeg allweddol yn cynnwys liwiau, dyddiau'r wythnos, misoedd a llawer mwy, ac mae wrth law i bawb yn y lleoliad. Mae'r staff hefyd yn cydnabod pwysigrwydd adolygu'r hyn y maent wedi'i ddysgu trwy gwrs Camau. A thrwy wreiddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn y lleoliad trwy arwyddion, adnoddau a'r ffolder Dysgu Cymraeg, sicrheir digon o gyfleoedd i barhau i ymarfer ymhlith ei gilydd, a fydd yn cryfhau eu hyfedredd yn y Gymraeg ymhellach yn ogystal ag yn rhoi cyfleoedd i'r plant ddysgu rhywfaint o Gymraeg.




Welsh promise | Addewid Cymraeg

All staff greet parents every day with a 'prynhawn da' and using the Welsh they have which has resulted in very positive feedback from many parents and guardians regarding their use of the Welsh language with Welsh speaking guardians commending their efforts and some English medium parents now responding to their greetings in Welsh too. Staff have also built confidence to include key Welsh vocabulary and short phrases when engaging with their families through ensuring Welsh is included within newsletters, on the notice board and on social media posts.

Two Tribes achieved the Silver Welsh Promise award in July.


"The Welsh Promise has built our confidence, especially when we receive so much positive feedback and encouragement from our Childcare Business Development Officer. The Promise has also influenced us to use Welsh a lot more in our personal lives."




Mae'r holl staff yn cyfarch rhieni bob dydd â 'prynhawn da' ac yn defnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt sydd wedi arwain at adborth cadarnhaol iawn gan lawer o rieni a gofalwyr o ran eu defnydd o'r Gymraeg. Mae gofalwyr sy'n siarad Cymraeg yn canmol eu hymdrechion a rhai rhieni cyfrwng-Saesneg bellach yn ymateb i'w cyfarchion yn Gymraeg hefyd. Mae'r staff hefyd wedi magu hyder i gynnwys geirfa Gymraeg allweddol ac ymadroddion byr wrth ymgysylltu â'u teuluoedd drwy sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn cylchlythyrau, ar yr hysbysfwrdd ac ar bostiau cyfryngau cymdeithasol.

Enillodd Two Tribes ddyfarniad Arian yr Addewid Cymraeg ym mis Gorffennaf.

"Mae'r Addewid Cymraeg wedi adeiladu ein hyder, yn enwedig pan fyddwn yn derbyn cymaint o adborth cadarnhaol ac anogaeth gan ein Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant. Mae'r Addewid hefyd wedi dylanwadu arnom i ddefnyddio'r Gymraeg yn llawer mwy yn ein bywydau personol."




Say it in Cymraeg this Christmas....



Merry Christmas	Nadolig Llawen	Na-doh-lig lla-when
Happy New Year	Blwyddyn Newydd Dda	Bl-oi-ddin New-ydd Dd-ah
Present	Anrheg	Ann-rhh-eg
Star	Seren	Se-ren
Christmas Tree	Coeden Nadolig	Coy-den Na-doh-lig
Father Christmas	Siôn Corn	Shaun Corr-n
Snow Man	Dyn Eira	Dean Eye-rah
Reindeer	Carw	Ca-roo
Snow	Eira	Eye-rah
Christmas Dinner	Cinio Nadolig	Kin-yoh Na-doh-lig
Christmas Pudding	Pwdin Nadolig	Pww-din Na-doh-lig
Christmas Carols	Carolau Nadolig	Car-ol-ai Na-doh-lig
Stocking	Hosan	Hos-ann
Mince Pie	Mins Pei	Mince Pay
Decorations	Addurniadau	Add-irn-iad-ai
Angel	Angel	Ann-ghel
Holly	Celyn	Ceh-lynn
Lights	Goleuadau	Go-ley-add-ai

Menter iaith abertawe
Rhif Cwmni: 06693822



Welsh promise | Addewid Cymraeg



Two Tribes After School Club

19 Jan · 🌐

We love to play! Rydym wrth ein bodd yn chwarae!



What's next for Two Tribes?

In September Two Tribes celebrate their 10-year anniversary with big parties in planning.

The Promise has enabled Two Tribes to update their latest SASS to say that they are actively working towards the Active Offer with staff eager to continue their great work and commitment towards the Welsh language and the Active Offer.

Beth nesaf i Two Tribes?

Ym mis Medi mae Two Tribes yn dathlu eu pen-blwydd yn 10 oed, ac mae partïon mawr yn cael eu cynllunio.

Mae'r Addewid wedi galluogi Two Tribes i ddiweddaru eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth diweddaraaf i ddweud eu bod yn gweithio'n frwd tuag at y Cynnig Gweithiol, ac mae'r staff yn awyddus i barhau â'u gwaith gwych, ac yn eu hymrwymiad i'r Gymraeg a'r Cynnig Gweithiol.

Da iawn Two Tribes!







www.clybiauplantcymru.org



<https://earlyyears.wales/>



<https://www.meithrin.cymru/>



<https://www.ndna.org.uk/>



www.cwlwm.org.uk



<https://www.pacey.org.uk/>



Cwmni cyfyngedig drwy warrant / Company limited by guarantee 4296436
Elusen Gofrestredig / Registered charity 1093260

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff, CF14 5UW